

## Busnesau Lleol yn Hapus i Siarad Cymraeg!

Fel rhan o ddatliadau Diwrnod Shwmae Su'mae 2024, mae swyddogion Menter Caerdydd wedi bod yn ymweld â busnesau lleol er mwyn eu hannog i ymuno â chynllun 'Hapus i Siarad'.

Mae'r ymgyrch, sy'n bartneriaeth rhwng Mentrau Iaith a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yn cynnig cymorth ac adnoddau i siopau a busnesau bach lle mae aelod o staff yn siarad Cymraeg. Wedi cynllun peilot llwyddiannus yn siroedd Rhondda Cynon Taf, Ceredigion a Fflint a Wrecsam yn gynharach eleni, mae busnesau trwy Gymru gyfan bellach yn cael cyfle i ymuno â'r cynllun ac arddangos poster sy'n dangos eu bod yn 'hapus i siarad' Cymraeg â'u cwsmeriaid. Mae'r pecyn adnoddau hefyd yn cynnwys bathodynau a syniadau am sut i annog pobl, yn enwedig dysgwyr, i siarad Cymraeg a magu hyder.

Mae dysgwyr, sy'n dilyn cyrsiau gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, wedi derbyn cardiau er mwyn casglu stampiau wrth sgwrsio yn Gymraeg gyda staff. Bydd y rhai sy'n llenwi'r cerdyn a'i ddychwelyd at eu tiwtoriaid cyn diwedd mis Mawrth 2025 yn cael cyfle i ennill penwythnos preswyl i ymarfer neu wella eu Cymraeg.

Mae croeso i berchnogion busnes gysylltu â'u Menter Iaith leol neu Fentrau Iaith Cymru i ymuno â'r cynllun.

Mae'r busnesau yma yn ardal Cowbridge Road East yn 'Hapus i Siarad':

- Oriel Jones
- Savers
- Beanfreaks
- Hudo Lounge
- Y Corp
- Ffloc
- Let Them See Cake
- Tafarn Y Lansdowne

Mewn ardaloedd eraill, mae'r busnesau isod yn cefnogi'r cynllun:

- Snails, Rhiwbeina
- Siop y Felin, Yr Eglwys Newydd
- Iechyd Da, Yr Eglwys Newydd
- Caban, Pontcanna
- Cant y Mil, Heol Whitchurch

Ydych chi'n gwybod am fwy? Cysylltwch â [rachel@mentercaerdydd.cymru](mailto:rachel@mentercaerdydd.cymru)